

Nodyn crynodeb y gyfarfod - 20 Hydref 2020

Mynychwyr

Mynychwyr o'r CMC:

Clare Marx (Cadeirydd); Charlie Massey; Steve Burnett; Jenny Duncan; Robert Khan; Katie Laugharne; Neil Roberts; Manel Tippett (nodiadau).

Mynychwyr allanol:

David Bailey, BMA Cymru; Kamila Hawthorne, Ysgol Feddygol Abertawe; Mair Hopkin, Academi Colegau Brenhinol Meddygol Cymru (AMRCW); Chris Jones, Llywodraeth Cymru; Des Kitto, Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned; Phil Kloer, Bwrdd Iechyd Hywel Dda; Push Mangat, AaGIC; Stephen Riley, Ysgol Feddygol Caerdydd; Keshav Singhal, BAPIO Cymru; Dave Thomas, Archwilio Cymru.

Croeso a Chyflwyniad y Cadeirydd

- 1 Croesawodd y Cadeirydd fynychwyr hen a newydd, gan bwysleisio y cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ym mis Hydref 2019. Atgoffwyd aelodau mai diben y cyfarfod yw deall yn well sut gallwn gefnogi gwaith yng Nghymru, yn arbennig ar yr adeg anodd hwn.

Adolygiad o Weithredu Blaenorol

- 2 Darparwyd diweddariad o weithredu o'r cyfarfod diwethaf ar 18 Hydref 2019 a oedd yn cynnwys: ffurfio'r Grŵp Ymgynghorol o Weithwyr Proffesiynol Meddygol Cysylltiol yn y pedair gwlad (MAPs); cyflenwi sesiynau Croeso i Ymarfer yn y DU (WtUKP) yng Nghymru yn rhithiol, gydag elfen benodol ar y system gofal iechyd yng Nghymru; a chasglu rhagor o sylwadau ar gynyddu arbenigedd mewn cyffredinoli a chynnwys ein hymagwedd yn ein strategaeth gorfforaethol nesaf.

Diweddariad y Prif Weithredwr

- 3 Rhoddodd Prif Weithredwr y CMC ddiweddariad byr ar ein gwaith yn ystod y pandemig a'n cynlluniau adfer. Nododd:
 - Rhoeson gofrestru dros dro i feddygon ar draws y DU a daethom â chofrestru dros dro ar gyfer myfyrwyr meddygol yn eu blwyddyn olaf yn ei flaen.

- Ein Hyb Moeseg CMC Covid-19 ar-lein gyda chanllawiau sy'n berthnasol i'r pandemig.
 - Rhewon weithgareddau gweithredol gan gynnwys archwiliadau ac asesiadau clinigol. Rydym yn eu hail-ddechrau mewn ffordd ddiogel.
 - Ystyrion sut i ail-ddechrau ail-ddilysu ac rydym yn chwilio at gyfleoedd y rhai dan hyfforddiant a chynnydd y rhai dan hyfforddiant.
 - Mae aliniad rheoliadol yn parhau i fod yn flaenoriaeth a sut rydym ni'n rhannu gwybodaeth a data yn well.
 - Mae diwygio cyfreithiol ar fin digwydd, gan roi mwy o annibyniaeth i ni ac yn ein galluogi i foderneiddio ein prosesau. Bydd ein Strategaeth Gorfforaethol newydd yn cynnwys themâu o greu amgylcheddau gwaith diogel, gweithlu meddygol cynaliadwy, gwneud i bob rhyngweithiad gyfri, a buddsoddi yn ein staff.
 - Y cyhoeddiad diweddar yn gosod cyfyngiadau symud cenedlaethol, yn tanlinellu pa mor bwysig yw'r cyfarfodydd hyn.
- 4 Gofynnodd aelodau am sicrwydd byddwn yn parhau i alw am ddiwygio'r gyfraith o amgylch uno'r rhestrau arbenigwyr a meddygon teulu. Nodwyd rydym eto heb weld y ddeddfwriaeth ddrafft, ond byddwn yn parhau i bwysu am y newidiadau hyn.
 - 5 Gwnaeth aelodau sylwadau bod y gweithlu meddygol yn cynnwys mwy na meddygon. Cydnabuwyd bod rhaid i ni ystyried y gweithlu ehangach a all gyfrannu i gynnal gwaith meddygol, fel Cymdeithion Meddygol ac Anesthesia.
 - 6 Awgrymodd aelodau gellid gwneud mwy i ddeall yn well pwy sydd ar y gofrestr dros dro ac i'w cael yn eu holau yn ymarfer. Rhoddwyd sicrwydd ein bod yn awyddus i ddeall gwneuthuriad y garfan hon, beth sy'n eu hysgogi, a pham y bu iddynt benderfynu gadael y gofrestr.

Adferiad Covid-19, a chyfleoedd i hybu proffesiynoldeb a lles

Barn allanol

- 7 Gwahoddodd y Cadeirydd y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol (DCMO), a Chadeirydd yr Is-grŵp Gweithlu Covid-19 BAME i gyflwyno ar waith Llywodraeth Cymru yn ymateb i effaith roedd y firws yn ei gael ar gymunedau BAME.
- 8 Amlinellodd y DCMO bod y Grŵp Ymgynghorol wedi ymgynnull yn gynnar yn y pandemig a bod y ddau Is-grŵp a ffurfiwyd wedi gwneud nifer o argymhellion ers hynny, sydd wedi eu cytuno â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cyflawniad nodedig oedd creu a rhoi'r Adnodd Asesu Risg ar waith sy'n galluogi staff mewn grwpiau o risg uchel gael y gefnogaeth iawn gan eu cyflogwyr.
- 9 Dangosodd Cadeirydd yr Is-grŵp yr adnodd rhyngweithiol y gweithlu i'r Fforwm a thywysodd yr aelodau drwy'r broses, gan egluro bod Llywodraeth Cymru yn hyderus iawn yn yr adnodd. Ers hyn mae wedi ehangu i sefyllfaoedd gweithle eraill ar draws y sector cyhoeddus.

- 10** Cymeradwyodd aelodau lwyddiant yr Adnodd, gan gydnabod ei bwysigrwydd a'i werth yn cadw staff bregus yn ddiogel. Codwyd pryderon gan aelodau bod rhai staff nad oeddynt o dras BAME yn ei ganfod yn rhoi triniaeth ffafriol a bod datrasiad cynnar yn allweddol i liniaru unrhyw chwerwder.

Barn y CMC

- 11** Darparodd Cyfarwyddwr Adnoddau a noddwr oddi mewn i'r CMC ar gyfer materion cysylltiedig â Llywodraeth Cymru ddiweddariad gan y CMC. Atgoffodd y Fforwm o'n digwyddiad ym mis Chwefror, a gydnabu themâu ar gyfer cydweithredu arweinyddiaeth; cynefino, cefnogaeth a datblygu parhaus; aliniad rheoliadol o gwmpas agenda lles a gweithleoedd iach; a chyfleusterau a ffactorau hylendid sylfaenol.
- 12** Nodwyd cynlluniau adferiad Covid a gwaith ar droed i reoli'r effaith ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol a chleifion:
- Rydym yn rhoi pwyslais newydd ar ein cynnwys cleifion a byddwn yn trafod hyn wrth fwrdd crwn yn y misoedd a ddaw.
 - Canllaw cydsyniad newydd ei gyhoeddi yn ailddatgan pwysigrwydd rhannu gwneud penderfyniadau.
 - Uwchgynhadledd Addysg ym mis Tachwedd ar bynciau gan gynnwys effaith y pandemig ar gylchdroadau, arholiadau, chwricwla israddedig ac ôl-radd.
 - Cyhoeddi canlyniadau'r Arolwg Hyfforddiant Cenedlaethol eleni ac arolwg baromedr yn rhoi mewnwelediad defnyddiol i arweinwyr meddygol ledled Cymru.
 - Datblygiad ein timau allgymorth rhanbarthol; rydym yn cynnig hyfforddiant i feddygon i'w helpu cynefino ag ymarfer y Deyrnas Unedig ac rydym eisiau gweithio â Byrddau a'r rhannu'r data a'r mewnwelediadau rydym wedi datblygu.
- 13** Amlinellodd nad yw'r CMC eisiau creu mwy o waith yn y meysydd hyn i'n partneriaid, yn hytrach rydym yn awyddus i chwarae ein rhan i wneud cynnydd yn y meysydd hyn trwy ein timau allgymorth, rhannu data, dadansoddi gwybodaeth a'n canllawiau.

Trafodaeth

- 14** Gwahoddodd y Cadeirydd aelodau i rannu eu profiadau, eu pryderon a'r gwersi a ddysgwyd cyn belled yn ystod y pandemig. Clywodd yr aelodau:
- Fod byrddau iechyd wedi cyflawni'n anhygoel, gan gynnwys arloesi a chreadigrwydd a newidiadau positif trwy ymarfer. Wedi degawdau o ddadlau a thrafod, mae'r pandemig wedi gorfodi gwasanaethau i wneud penderfyniadau ac yn gyflym.
 - Yr anawsterau o ddelio â'r pandemig fel mae gwasanaethau'n dychwelyd i normal. Mae lles staff mor bwysig ag erioed. Mae meddygon yn bryderus na fydd y gefnogaeth a gawsant yn y dechrau yno yn ystod yr ail don, ac nid yw

dulliau newydd o weithio, yn arbennig mewn perthynas ag ymgynghoriadau o hirbell, wedi eu sefydlu yn llawn ar dystiolaeth.

- Mae gan rai byrddau iechyd yng Nghymru gyfran o feddygon BAME a Graddedigion Meddygol Rhyngwladol yn fwy na'r cyfartaledd, a'r gwaith pwysig a gynhelir gan Grŵp Ymgynghorol Llywodraeth Cymru, a grwpiau ymgynghorol moesol mewn byrddau iechyd, i gefnogi meddygon sydd mewn mwy o berygl.
- Mae gwaith ar droed mewn perthynas â chwynion ac urddas mewn gweithdrefnau gwaith a sefydlu dull ar sut i ddelio â gwrthdaro. Mae meddygon BAME yn fwy tebygol o gael eu bwlio ac yn llai tebygol o geisio cymorth a gallai cyflwyno'r Gwarcheidwaid Rhyddid i Siarad helpu ateb hyn.
- Mae'r gwaith gwerthfawr hwnnw eisoes wedi dechrau, gan gynnwys y Strategaeth y Gweithlu newydd. Gall arweinyddiaeth dosturiol a chynefino da gefnogi lles staff, er gwaethaf heriau'r pandemig.
- Effeithiodd COVID ar bob claf ac maent yn gynyddol anniddig ac ofnus am fisoedd y gaeaf sydd i ddod. Mae meddygon yn bryderus na fyddant yn gallu bodloni disgwyliadau am amseroedd aros ac i sicrhau bod ysbytai'n ddiogel er mwyn i gleifion gael eu trin.
- Mae archwiliadau ac arolygiadau o'r gwasanaeth iechyd wedi parhau'n rhithiol i alluogi sefydliadau gyflawni eu swyddogaethau statudol. Mae sefydliadau'n meddwl ar beth sydd wedi digwydd a beth all ei ddysgu o weithio ystwyth.
- Roedd gwaith o gwmpas graddio cynnar a'r gofrestr dros dro yn ddefnyddiol. Nodwyd problemau o gwmpas ennill y profiad clinigol oedd ei angen, a'r pryderon mae rhai yn ei deimlo nad ydynt efallai yn barod i ymarfer. Mae'r Arolwg Hyfforddiant Cenedlaethol yn parhau i bwysleisio'r canlyniadau gwael mewn cynefino, a chodi a gweithredu ar bryderon.

Crynodeb y Cadeirydd

15 Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb byr o'r drafodaeth, gan nodi:

- Yr heriau mae'r GIG yn eu hwynebu yn rhoi pwysau ar wasanaethau a'r rhai sy'n gweithio oddi mewn iddynt. Mae'n anodd cyflenwi arweinyddiaeth dosturiol, a'r angen i fod yn gynhwysol a chefnogol o bawb, yn ystod amser o argyfwng.
- Mae rhaid i ni sicrhau bod staff yn cael eu hymsefydlu a'u cefnogi'n iawn, fel eu bod yn gwybod lle gallent gael help, gyrchu gwasanaethau, a lle i wneud cwyn. Nododd absenoldeb Warcheidwaid Rhyddid i Siarad yng Nghymru.
- Rydym angen sicrwydd fel rheoleiddwyr y gallwn rannu gwybodaeth i sicrhau diogelwch cleifion. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan ein bod yn dibynnu ar weithio amlddisgyblaethol a chyda ein rôl newydd yn rheoleiddio Gweithwyr Proffesiynol Meddygol Cysylltiol.

UFA

16 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniadau a gofynnodd am unrhyw sylwadau neu gwestiynau ymhellach i'w cael eu cyflwyno iddi hi, Prif Weithredwr y CMC neu bennaeth Cenedlaethol CMC Cymru.

17 Dyddiad cyfarfod nesaf FfYyDU – Cymru: 17 Mawrth 2021.